



System Mewnbynnu Marciau Aseiad Mewnol (IAMIS)

Canllaw Cam wrth gam

Cynnwys

Tudalen

Mewngofnodi i Wefan Ddiogel CBAC	3
System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol	5
Mewnbynnu Marciau Ymgeiswyr	6
Ymgeiswyr Absennol	8
Ymgeiswyr Hwyr	8
Chwilio am Ymgeisydd Hwyr	8
Cyflwyno Marciau i CBAC	9
Edrych ar ymgeiswyr y sampl	10
Ychwanegu ymgeiswyr ychwanegol at y sampl	11
Gwallau Clerigol	12
Argraffu Adroddiadau	13
Uwchlwytho i IAMIS	14
Adroddiadau Cymedrolwyr	
16	
Llinell Gymorth	17
Atodiad – Gwahodd cyfrifon Gweinyddol/Defnyddiwr	18

Mewngofnodi i'r Porth

I gael mynediad at y daflen farciau electronig ar-lein, bydd rhaid i chi fewngofnodi i safle Porth CBAC gan ddefnyddio'r URL canlynol:

<http://portal.wjec.co.uk>

Bydd y sgrin ganlynol i'w gweld:

Pob gwasanaeth ▾

PORTAL

wjec cbac eduqas

Mewngofnodi i'ch cyfrif Porth

Cael mynediad at eich gwasanaethau diogel CBAC Eduqas.

Does gennych chi ddim cyfrif? [Cysylltu â ni](#)

Cyfeiriad e-bost
✉ e.e.joe.bloggs@cbac.co.uk

Cyfrinair
🔒 [] 🔓
Wedi anghofio eich cyfrinair?

Mewngofnodi →

NEU

Mewngofnodi fel Penodai →

wjec cbac eduqas | Copyright WJEC CBAC Ltd 2023

Bydd aelodau staff priodol yn cael eu gwahodd i'r Porth gan eu Swyddog Arholiadau yn eu canolfan.

Mewnbynwch eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair a chliciwch ar y botwm 'Mewngofnodi'.

Ar ôl i chi ddilysu trwy Ddilysu Aml-factor, bydd y sgrin ganlynol yn ymddangos. Cliciwch ar y botwm 'Pob gwasanaeth' yn y gornel chwith uchaf.

Pob gwasanaeth ▼

PORTAL

68999

wjec cbac eduqas

Haf 2023: Yma i'ch cefnogi

Dewch o hyd i bopeth sydd angen i chi gynllunio a pharatoi ar gyfer asesiadau yn ystod haf 2021, gan gynnwys arweiniad, deunyddiau ategol, a hyfforddiant.

2023 CBAC

- Diweddariadau CBAC i Wybodaeth Ymlaen Llaw Haf 2023
- Haf 2024 - Rheolau cymwysterau Safon Uwch unedol CBAC.
- Gymeradwywyd Trefniadau wrth Gefn ar gyfer Asesiadau Di-arholiad: Tachwedd 2022 a Haf 2023
- Ffurflen datganiad trefniadau wrth gefn Asesiadau Di-arholiad
- UG a Safon Uwch - llyfryn addasiadau haf 2022 (Chwefror 22)
- Addasiadau arfaethedig i'r cymwysterau GCDDP yn 2021/2022
- CBAC Addasiadau i'r DHS Uwch ar gyfer 2021-22
- CBAC Addasiadau i'r DHS Cenedlaethol Sylfaen ar gyfer 2021-22

Gwybodaeth am y Canlyniadau

Gallwch weld yr holl wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau ar ein tudalen sy'n benodol i'r canlyniadau.

- Gweld Gwybodaeth am y Canlyniadau
- Gweld Sgriptiau wedi'u Marcio ar ôl y Canlyniadau
- Caniatáu Mynediad at Weld Sgriptiau i Gyfrifon Eilaidd
- Surpass - Gweld Sgriptiau Wedi'u Marcio (ar gyfer arholiadau ar sgrin)

Unwaith y byddwch yn clicio ar Pob Gwasanaeth, bydd dewislen yn ymddangos. O'r fan hon mae angen i chi ddewis 'Arholiadau ac Asesiadau' o'r bar ar yr ochr chwith. Yna dewiswch 'Marciau/Canlyniadau Asesiad Mewnol' o dan y pennawd Asesiadau.

Cau ^

PORTAL

68999 Jo

wjec cbac eduqas

Chwilio pob gwasanaeth

- Adnoddau
- Arholiadau ac Asesiadau**
- Canlyniadau
- Cofrestriadau ac Ymrestriadau
- Gweinyddu Canolfannau
- Gwybodaeth Allweddol
- Fy Ffeyrnnau

Adnoddau
Tasgau Asesiadau Di-arholiad

Asesiadau
Marciau/Canlyniadau Asesiadau Mewnol

Cyffredinol
TGAU ITM - Dyriadiad Setiau

Os nad yw'r uchod yn weladwy, bydd angen i'r Swyddog Arholiadau newid math eich cyfrif. Cysylltwch â'ch Swyddog Arholiadau yn eich canolfan ar gyfer hyn.

System Mewnbynnu Marciau Aseiad Mewnol

MEWNBYNNU MARCIAU ASESIAD MEWNOL

EDRYCH AR / ARGRAFFU

CANLLAW CAM WRTH GAM

Gall canolfannau fewnbynnu marciau/canlyniadau i ymgeiswyr ar y dudalen we ar yr amod bod y cofrestrriad wedi'i gyflwyno i CBAC, ac wedi'i brosesu ganddo.

Os hoffai athrawon fewnbynnu marc/canlyniad unrhyw ymgeisydd nad yw wedi'i restru ar y tudalen gwe, dylid gofyn i'r swyddog arholiadau gyflwyno'r cofrestrriad cyn gynted â phosibl. Unwaith y bydd y swyddog arholiadau wedi anfon y wybodaeth hon i CBAC, dylai athrawon ganiatáu 72 awr cyn ceisio mewnbynnu'r marc/canlyniad.

Os oes marc/canlyniad anghywir wedi'i gyflwyno, rhaid i ganolfannau lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon i ofyn am ddiwygiad.

TGAU MEHEFIN 2023 -	
TGAU MEHEFIN 2023 CELF, CREFFT A DYLUNIO COMPONENT 1 PORTFOLIO (C650U1) Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno samplau a thafenni clawr i'r safonwr: 31/05/2023	<p>EDRYCH AR ADRODDIAD Y SAFONWR</p> <p>RHOI MARCIAU I MEWN (0 WEDI'U GWNEUD, 52 AR OL)</p> <p>NID OES MARCIAU I'W CYFLWYNO (0 WEDI'U CYFLWYNO'N BAROD)</p>
TGAU MEHEFIN 2023 CELF, CREFFT A DYLUNIO COMPONENT 2 EXTERNAL (C650U2) Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno samplau a thafenni clawr i'r safonwr: 31/05/2023	<p>EDRYCH AR ADRODDIAD Y SAFONWR</p> <p>RHOI MARCIAU I MEWN (0 WEDI'U GWNEUD, 52 AR OL)</p> <p>NID OES MARCIAU I'W CYFLWYNO (0 WEDI'U CYFLWYNO'N BAROD)</p>
TAG MEHEFIN 2023 +	

Bydd rhestr o'r pynciau/papurau y mae angen mewnbynnu eu marciau/canlyniadau gan ddefnyddio'r system ar-lein i'w gweld ar y sgrin hon.

Mewnbynnu Marciau Ymgeiswyr

Cliciwch ar y botwm 'Rhoi marciau i mewn' sydd gyferbyn â'r Pwnc a'r Papur priodol ar y sgrin. Bydd gwneud hyn yn cynhyrchu rhestr o'r ymgeiswyr a gofrestrwyd ar gyfer y pwnc/papur hwn, fel y dangosir isod.

GCSE NOVEMBER 2023 ENGLISH LANGUAGE UNIT 1 ORACY (3700U1) TAFLEN FARCIAU

EDRYCH AR FANYLION Y SAFONWR

Rhaid i chi nodi C neu CF yn y golofn marciau os ydych yn dymuno trosglwyddo marciau.

Options

Chwilio am ymgeiswyr

Rhesi i'w harddangos: 20

Didoli yn ôl: Rhif yr Ymgeisydd

Dangos: Pob

CHWILIO

LLAWLYFR ASESU MEWNOL

CANLLAW CAM WRTH GAM

ARGRAFFU

CADW A CHAU (COFIWCH GYFLWYNO'CH MARCHIAU)

TUDALEN NESAF >>

Rhif yr Ymgeisydd	Enw	Task 1 (Max:40)	Task 2 (Max:40)	Cyfanswm	Grwp Addysgu
1068	CYFENW :ENW CYNTAF	15	15	30	AB
1141	CYFENW :ENW CYNTAF				

Rhowch farciau'r ymgeiswyr yn nhrefn eu rhifau arholiad neu enwau. Unwaith y bydd y marc wedi'i fewnbynnu gellir pwyso'r fysell "TAB" ar y bysellfwrdd i symud y cyrchwr i lawr at yr ymgeisydd nesaf. Pan fydd marc wedi'i fewnbynnu, bydd cefndir y blwch marciau'n troi'n wyrdd i ddangos bod y system wedi derbyn y marc hwn.

Os oes mwy na 20 ymgeisydd mewn canolfan, byddant yn cael eu dangos ar dudalennau ar wahân. Gallwch newid nifer y **rhesi** i'w dangos, gan ddefnyddio'r opsiynau cwmplyen ar frig y sgrin hon.


Yn y gwmplyen ar frig y sgrin ar yr ochr dde, fe welwch flwch '**Dangos:**', ynddo ceir dewis o 'Pob un' (y rhagosodiad 'Heb eu marcio', 'Wedi'u marcio' neu 'Samplau'. Pan fydd 'Pob un' wedi'i ddewis, dangosir pob ymgeisydd ar y sgrin. Pan ddewisir 'Heb eu marcio', dim ond yr ymgeiswyr hynny nad yw eu marciau wedi'u mewnbynnu bydd yn ymddangos. Pan ddewisir 'Wedi'u Marcio', dim ond yr ymgeiswyr hynny y mae eu marciau wedi'u mewnbynnu bydd yn cael eu dangos. Pan ddewisir 'Samplau', dim ond yr ymgeiswyr hynny sydd wedi'u dewis yn y sampl fydd yn cael eu dangos.

Os yw'n berthnasol, bydd manylion cymedrolwr yn ymddangos unwaith y bydd eich marciau wedi'u cyflwyno, trwy glicio ar y botwm '**Edrych Ar Fanylion y Safonwr**'.

Mae'r **Llawlyfr Asesu Mewnol** ar gael i chi gyfeirio ato.

Bydd clicio ar y botwm '**Cadw a Chau**' yn eich dychwelyd i'r sgrin dewislen ac yn cadw unrhyw farciau sydd wedi'u mewnbynnu. Gallwch wneud hyn ar unrhyw adeg.

Os yw marc a fewnbynwyd ar gyfer ymgeisydd yn uwch nag uchafswm marciau'r papur hwnnw bydd neges (fel y dangosir) yn ymddangos a bydd gofyn i chi gyflwyno'r marc cywir.



Ar gyfer y pynciau/cymwysterau hynny y mae angen **Blaenlythrennau'r Athro**, rydym yn argymhell mewnbynnu marciau/canlyniadau'r ymgeiswyr ar gyfer pob uned yn gyntaf ac yna blaenlythrennau'r athro. Wrth fewnbynnu marc bydd blwch Blaenlythrennau'r Athro yn ymddangos. Unwaith y bydd blaenlythrennau'r athro wedi'u mewnbynnu bydd y system yn cadw'r manylion hyn. Bydd hefyd yn eich galluogi i fewnbynnu'r un blaenlythrennau ar gyfer pob ymgeisydd y mae ei waith yn cael ei farcio gan yr athro hwn. Trwy glicio ar flwch Blaenlythrennau'r Athro i'r ymgeisydd nesaf yn y dosbarth hwnnw, bydd y blaenlythrennau yn ymddangos. Bydd y system yn parhau i ailadrodd y blaenlythrennau hyn tan y byddwch chi'n clicio ar "cadw a chau". Ni fyddwch yn gallu cyflwyno marciau nes y bydd Blaenlythrennau'r Athro wedi'u mewnbynnu ar gyfer pob ymgeisydd.

Ymgeiswyr Absennol

Er mwyn dangos bod ymgeisydd yn absennol, tabiwch neu gliciwch i mewn i'r golofn farciau a rhowch y llythyren 'a' neu 'A' i mewn. Bydd hyn yn newid i 'A' pan fyddwch yn gadael y golofn. Gofynnir i chi gadarnhau bod yr ymgeisydd hwn yn Absennol.

Ymgeiswyr y mae eu marciau'n cael eu trosglwyddo

Ar gyfer cymwysterau llinol, er mwyn dynodi bod ymgeisydd yn trosglwyddo ei farc o gyfres flaenorol, tabiwch neu gliciwch yn y golofn farciau a rhowch y llythrennau 'c' neu 'C' i mewn. **PEIDIWCH, DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU, Â MEWNBYNNU'R MARC I'W DROSGLWYDDO.**

Ymgeiswyr Cofrestriad Hwyr

Os nad yw ymgeisydd yn ymddangos ar y sgrin hon yna nid yw wedi'i gofrestru eto. Os yw athrawon am fewnbynnu marc unrhyw ymgeisydd nad yw'n ymddangos ar y rhestr ar y dudalen we, dylid gofyn i'r Swyddog Arholiadau gyflwyno'r cofrestriad angenrheidiol cyn gynted â phosibl. Unwaith y bydd y swyddog arholiadau wedi anfon y wybodaeth hon i CBAC, dylai athrawon ganiatáu 72 awr cyn rhoi cynnig ar fewnbynnu'r marc.

Chwilio am Enw Ymgeiswyr

Mae cyfleuster yn y system i chwilio am ymgeiswyr yn ôl enw. I ddefnyddio'r cyfleuster hwn, cliciwch yn y blwch wedi'i labelu 'Chwilio am ymgeiswyr', rhowch gyfenw'r ymgeisydd rydych am ei ganfod, a chliciwch ar y botwm 'Chwilio'.

Os nad yw'r Cyfleuster Cyflwyno ar gael

Mae angen cwblhau pob ymgeisydd cyn i'r dewis cyflwyno fod ar gael. Ar y sgrin mewnbynnu marciau, newidiwch "Dangos" i "Heb eu marcio" er mwyn amlygu'r ymgeiswyr y mae angen mewnbynnu canlyniadau ar eu cyfer o hyd.

Cyflwyno Marciau i CBAC

Pan fydd yr holl ddata wedi'u bwydo i mewn am y pwnc/papur, dylid cyflwyno'r marciau i CBAC. Bydd clicio ar y botwm 'Cadw a Chau' yn dangos sgrin dewislen.

<p>TGAU MEHEFIN 2023 CELF A DYLUNIO CYFATHREBU GRAFFIG UNIT 2 EXTERNALLY SET (3654U2)</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno samplau a thafenni clawr i'r safonwr: 31/05/2023</p>	<p>RHOI MARCIAU I MEWN (9 WEDI'U GWNEUD, 0 AR ÔL)</p> <p>CYFLWYNO MARCIAU A DEWIS SAMPLAU (9)</p>
<p>TGAU MEHEFIN 2023 CELF A DYLUNIO TRI DIMENSIWN UNIT 1 PORTFOLIO (3655U1)</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno samplau a thafenni clawr i'r safonwr: 31/05/2023</p>	<p>RHOI MARCIAU I MEWN (0 WEDI'U GWNEUD, 15 AR ÔL)</p> <p>NID OES MARCIAU I'W CYFLWYNO (0 WEDI'U CYFLWYNO'N BAROD)</p>

Pan fydd pob marc ar gyfer pwnc wedi'u mewnbynnu, bydd y botwm 'Cyflwyno Marciau a Dewis Samplau' ar gael.

Ni fydd y botwm sy'n dangos 'Nid oes marciau i'w cyflwyno' ar y dechrau yn newid nes bydd marciau'r holl ymgeiswyr wedi'u mewnbynnu.

Bydd clicio ar y botwm 'Cyflwyno Marciau a Dewis Samplau' yn cyflwyno marciau i CBAC ac yn cynhyrchu sampl.

Ar ôl i chi gyflwyno eich marciau, bydd y sgrin hon yn ymddangos.

Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol - TGAU MEHEFIN 2023 CELF A DYLUNIO -CYFATHREBU GRAFFIG UNIT 2-EXTERNALLY SET (3654N2)

9 MARCIAU CYFLWYNO

Diolch am gyflwyno marciau 3654N2 CELF A DYLUNIO CYFATHREBU GRAFFIG UNIT 2 EXTERNALLY SET eich canolfan.

Mae CBAC wedi derbyn y marciau hyn a byddan nhw ar gael i'r safonwr yn awr.

Byddwch yn gweld bod tic yn ymddangos gyferbyn â rhai ymgeiswyr dethol.

Cliciwch yma i ddychwelyd i'r sgrin mewnbynnu MARCIAU ASESIAD MEWNOL ac i edrych ar y sampl.

AR ÔL I FARCIAU GAEL EU CYFLWYNO I CBAC NI ELLIR NEWID Y MARCIAU A RODDWDYD I YMGEISWYR AR-LEIN, OND GELLIR ANFON CAIS DRWY LENWI'R **FFURFLEN** SYDD AR GAEL O SGRIN Y DDEWISLEN.

MEWNBYNNU MARCIAU ASESIAD MEWNOL

EDRYCH AR / ARGRAFFU

CANLLAW CAM WRTH GAM

Gall canolfannau fewnbynnu marciau/canlyniadau i ymgeiswyr ar y dudalen we ar yr amod bod y cofrestriad wedi'i gyflwyno i CBAC, ac wedi'i brosesu ganddo.

Os hoffai athrawon fewnbynnu marc/canlyniad unrhyw ymgeisydd nad yw wedi'i restru ar y tudalen gwe, dylid gofyn i'r swyddog arholiadau gyflwyno'r cofrestriad cyn gynted â phosibl. Unwaith y bydd y swyddog arholiadau wedi anfon y wybodaeth hon i CBAC, dylai athrawon ganiatáu 72 awr cyn ceisio mewnbynnu'r marc/canlyniad.

Os oes marc/canlyniad anghywir wedi'i gyflwyno, rhaid i ganolfannau **lenwi a chyflwyno'r ffurflen** hon i ofyn am ddiwygiad.

Edrych ar ymgeiswyr y sampl

MEWNBYNNU MARCIAU ASESIAID MEWNOL

EDRYCH AR / ARGRAFFU

CANLLAW CAM WRTH GAM

Gall canolfannau fewnbynnu marciau/canlyniadau i ymgeiswyr ar y dudalen we ar yr amod bod y cofrestrriad wedi'i gyflwyno i CBAC, ac wedi'i brosesu ganddo.

Os hoffai athrawon fewnbynnu marc/canlyniad unrhyw ymgeisydd nad yw wedi'i restru ar y tudalen gwe, dylid gofyn i'r swyddog arholladau gyflwyno'r cofrestrriad cyn gynted â phosibl. Unwaith y bydd y swyddog arholladau wedi anfon y wybodaeth hon i CBAC, dylai athrawon ganiatáu 72 awr cyn ceisio mewnbynnu'r marc/canlyniad.

Os oes marc/canlyniad anghywir wedi'i gyflwyno, rhaid i ganolfannau lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon i ofyn am ddiwygiad.

BAGLORIAETH CYMRU IONAWR 2024 +

TGAU TACHWEDD 2023 -

TGAU TACHWEDD 2023 SAESNEG IAITH UNIT 1 ORACY (3700U1)

EDRYCH AR SAMPLAU

POB MARC
WEDI'I GYFLWYNO (8)

Cliciwch ar y botwm **Edrych ar y samplau**

GCSE NOVEMBER 2023 ENGLISH LANGUAGE UNIT 1 ORACY (3700U1) TAFLEN FARCIAU

EDRYCH AR FANYLION Y SAFONWR

Rhaid i chi nodi C neu CF yn y golfn marciau os ydych yn dymuno trosglwyddo marciau.

Options

Chwilio am ymgeiswyr

Rhesi i'w

harddangos:

Pob

Didoli yn ôl:

Marc

Dangos:

Samplau

CHWILIO

LLAWLYFR ASESU MEWNOL

CANLLAW CAM WRTH GAM

ARGRAFFU

CADW A CHAU

Rhif yr Ymgeisydd	Enw	Task 1 (Max:40)	Clerical Error	Task 2 (Max:40)	Clerical Error	Cyfanswm	Clerical Error Total	Grwp Addysgu	Sampl
1054	CYFENW :ENW CYNTAF	20		20		40		AB	<input checked="" type="checkbox"/>
3268	CYFENW :ENW CYNTAF	20		20		40		AB	<input checked="" type="checkbox"/>

Nodwyd ymgeiswyr y sampl ar ochr dde'r sgrin.

Os yw'r sampl yn cynnwys ymgeisydd sydd â'i waith yn anghyflawn neu ar goll, yna dylai athrawon pwnc ddynodi'r ymgeisydd agosaf ar y system (naill ai'n uwch neu'n is) y mae ei waith yn gyflawn. **NI DDYLID ANFON Y GWAITH ANGHYFLAWN AT Y CYMEDROLWR.**

Ni fydd y system yn caniatáu i athrawon pwnc "dynnu" ymgeiswyr o'r sampl a ddewiswyd. Fodd bynnag, bydd y system yn caniatáu i ganolfannau ychwanegu ymgeiswyr "ychwanegol" gan ddefnyddio'r cyfleuster blwch ticio.

Ychwanegu ymgeiswyr ychwanegol at y sampl

TGAU MEHEFIN 2023 CYMRAEG AIL IAITH UNED 1 UNIT 1 (3020U1) TAFLEN FARCIAU

EDRYCH AR FANYLION Y SAFONWR

WJEC LLAWLYFR ASESU MEWNOL

EDUQAS LLAWLYFR ASESU MEWNOL

CANLLAW CAM WRTH GAM

ARGRAFFU

Opsynau

Chwilio am ymgeiswyr

Rhesi i'w harddangos: Didoli yn ôl:

Pob
Marc
Dangos:

- Samplau
- Pob
- Heb eu marcio
- Wed'u marcio
- Samplau

CHWILIO

Rhif yr Ymgeisydd	Enw	Marc (Uchafswm:50)	Llythrennau Athrawon	Gwall Clerigol	Sampl
9769	CYFENW :ENW CYNTAF	35	CDV		<input checked="" type="checkbox"/>
8985	CYFENW :ENW CYNTAF	32	CDV		<input checked="" type="checkbox"/>
8979	CYFENW :ENW CYNTAF	31	LC		<input checked="" type="checkbox"/>

Newidiwch y wedd i ddangos **pob** ymgeisydd.

WJEC LLAWLYFR ASESU MEWNOL

EDUQAS LLAWLYFR ASESU MEWNOL

CANLLAW CAM WRTH GAM

ARGRAFFU

Opsynau

Chwilio am ymgeiswyr

Rhesi i'w harddangos: Didoli yn ôl:

Pob
Marc
Dangos:

- Pob

CHWILIO

Rhif yr Ymgeisydd	Enw	Marc (Uchafswm:50)	Llythrennau Athrawon	Gwall Clerigol	Sampl
9769	CYFENW :ENW CYNTAF	35	CDV		<input checked="" type="checkbox"/>
9782	CYFENW :ENW CYNTAF	34	CDV		<input type="checkbox"/>
8985	CYFENW :ENW CYNTAF	32	CDV		<input checked="" type="checkbox"/>
9914	CYFENW :ENW CYNTAF	32	CDV		<input type="checkbox"/>
8979	CYFENW :ENW CYNTAF	31	LC		<input checked="" type="checkbox"/>
1069	CYFENW :ENW CYNTAF	30	CDV		<input checked="" type="checkbox"/>

Cliciwch ar y blwch ticio ar gyfer yr ymgeisydd (ymgeiswyr) ychwanegol.
Ni allwch dynnu ymgeiswyr a ddewiswyd gan y system.

Rhaid anfon nodyn o eglurhad at y cymedrolwr gyda'r ffolderi os yw'r sampl y bydd y ganolfan yn ei anfon yn wahanol i'r sampl a ddewiswyd gan y system.

Gwall Clercio

Weithiau bydd cymedrolwyr yn nodi gwallau clerigol yn ystod y broses o adolygu'r gwaith sampl o ganolfannau a bydd y marciau diwygiedig hyn yn cael eu hamlygu mewn **coch** ochr yn ochr â'r marc gwreiddiol. Bydd y marc diwygiedig mewn coch yn cael ei brosesu i gael gwared ar farc gwreiddiol y ganolfan. Mae'n bwysig bod y ganolfan yn sicrhau bod y marciau ar gyfer yr ymgeiswyr sy'n weddill hefyd yn gywir. Bydd CBAC yn cysylltu â chanolfannau i'w hysbysu bod gwallau clerigol wedi'u nodi ar gyfer un neu fwy o'u marciau/canlyniadau.

Argraffu Adroddiadau

Mae'r botwm 'Edrych ar/Argraffu' ar frig y sgrin yn ddewis fydd yn argraffu pob ymgeisydd ar gyfer pwnc/papur. Pan fydd hwn wedi'i ddewis, trwy glicio ar y pwnc/papur gofynnol ar y sgrin ganlynol, bydd modd edrych ar y manylion/eu hargraffu yn nhrefn rhif yr ymgeisydd.

MEWNBYNNU MARCIAU ASESIAD MEWNOL

EDRYCH AR / ARGRAFFU

CANLLAW CAM WRTH GAM

Gall canolfannau fewnbynnu marciau/canlyniadau i ymgeiswyr ar y dudalen we ar yr amod bod y cofrestriad wedi'i gyflwyno i CBAC, ac wedi'i brosesu ganddo.

Os hoffai athrawon fewnbynnu marc/canlyniad unrhyw ymgeisydd nad yw wedi'i restru ar y tudalen gwe, dylid gofyn i'r swyddog arholiadau gyflwyno'r cofrestriad cyn gynted â phosibl. Unwaith y bydd y swyddog arholiadau wedi anfon y wybodaeth hon i CBAC, dylai athrawon ganiatáu 72 awr cyn ceisio mewnbynnu'r marc/canlyniad.

Os oes marc/canlyniad anghywir wedi'i gyflwyno, rhaid i ganolfannau [lenwi a chyflwyno'r ffurflen](#) hon i ofyn am ddiwygiad.

MEWNBYNNU MARCIAU ASESIAD MEWNOL - ADRODDIADAU

<< YN OL

1	Edrych ar/Argraffu i BAGLORIAETH CYMRU IONAWR 2024 HER MENTER A CHYFLOGADWYEDD WBQ N/F CHALLENGE 1 (90S9U2)
2	Edrych ar/Argraffu i BAGLORIAETH CYMRU IONAWR 2024 HER DINASYDDIAETH FYD EANG WBQ ADV CHALLENGE 2 (90S3U3)
3	Edrych ar/Argraffu i BAGLORIAETH CYMRU IONAWR 2024 HER Y GYMUNED WBQ ADV CHALLENGE 3 (90S3U4)
4	Edrych ar/Argraffu i TGAU TACHWEDD 2023 SAESNEG IAITH UNIT 1 ORACY (3700U1)
5	Edrych ar/Argraffu i BAGLORIAETH CYMRU MEHEFIN 2023 PROJECT UNIGOL N/F PROJECT (90S9U1)
6	Edrych ar/Argraffu i BAGLORIAETH CYMRU MEHEFIN 2023 MENTER A CHYFLOGADWYEDD N/F CHALLENGE 1 (90S9U2)
7	Edrych ar/Argraffu i BAGLORIAETH CYMRU MEHEFIN 2023 DINASYDDIAETH FYD EANG N/F CHALLENGE 2 (90S9U3)
8	Edrych ar/Argraffu i BAGLORIAETH CYMRU MEHEFIN 2023 Y GYMUNED N/F CHALLENGE 3 (90S9U4)
9	Edrych ar/Argraffu i BAGLORIAETH CYMRU MEHEFIN 2023 PROJECT UNIGOL ADVANCED PROJECT (90S3U1)
10	Edrych ar/Argraffu i BAGLORIAETH CYMRU MEHEFIN 2023 MENTER A CHYFLOGADWYEDD ADV CHALLENGE 1 (90S3U2)

Unwaith y dewisir pwnc, gallwch ddewis y botwm 'Argraffu'r adroddiad hwn' ar frig y dudalen ar yr ochr chwith.

ARGRAFFU'R ADRODDIAD HWN

ADRODDIAD MANYLION YMGEISYDD

BAGLORIAETH CYMRU IONAWR 2024 HER MENTER A CHYFLOGADWYEDD WBQ N/F CHALLENGE 1 (90S9U2)

CANOLFAN:


#	Rhif yr Ymgeisydd	Enw	DG	Marc (Uchafswm:36)	Grwp Addysgu	Sampl
1	1111	CYFENW: ENW CYNTAF	010101			
2	1111	CYFENW: ENW CYNTAF	010101			
3	1111	CYFENW: ENW CYNTAF	010101			
4	1111	CYFENW: ENW CYNTAF	010101			
5	1111	CYFENW: ENW CYNTAF	010101			
6	1111	CYFENW: ENW CYNTAF	010101			
7	1111	CYFENW: ENW CYNTAF	010101			
8	1111	CYFENW: ENW CYNTAF	010101			

UWCHLWYTHO AR IAMIS

I rai cymwysterau gofynnir i ganolfannau uwchlwytho'r samplau unedau yn electronig dros IAMIS.

Bydd tudalennau mewnbynnu i'w gweld fel arfer fel yr amlinellir ar dudalennau 2-13.

Ar ôl dychwelyd i'r dudalen 'Gweld Sampl' fel y disgrifir uchod, bydd y sgrin fewnbynnu sy'n dangos rhestr o ymgeiswyr fesul pwnc/papur ychydig yn wahanol gan y bydd yr eicon 'Cwmwl Uwchlwytho' i'w weld.




The screenshot shows the 'Options' section of the IAMIS interface. It includes a search bar, a 'Rows' dropdown set to 20, a 'Sort by' dropdown set to 'Candidate No', and a 'Show' dropdown set to 'All'. A 'SEARCH' button is located below these controls. Below the search controls is a table with the following data:

Candidate No	Name	Grade	Upload
1501	CYFENW :ENW CYNTAF	Pass	Upload
1601	CYFENW :ENW CYNTAF	Pass	Upload
1603	CYFENW :ENW CYNTAF	Pass	Upload


D.S. Atgoffir canolfannau i beidio ag uwchlwytho unrhyw ffeiliau tan y bydd y marciau/canlyniadau wedi'u cyflwyno a'r samplau wedi'u cynhyrchu.

Wrth glicio ar y 'botwm uwchlwytho' byddwch chi wedyn yn gallu dewis y ffeil i'w huwchlwytho o'r ffenestr sydd i'w gweld. Dewiswch y ffeil yr ydych yn dymuno ei huwchlwytho a chliciwch ar 'agor'.



The screenshot shows the IAMIS interface with a file explorer window open. The file explorer is displaying the 'Downloads' folder, which is highlighted. The file explorer window has a search bar and a list of files. The IAMIS interface in the background shows a table with columns for 'Grade', 'Sample', and 'Upload'. The 'Upload' column contains upload icons. The interface also shows a 'Signed in as' section with 'Account Admin' and 'Terms & Conditions' links, and a 'PRINT' button.

Bydd y ffeiliau sydd wedi'u huwchlwytho yn cael eu harddangos gyferbyn â'r ymgeisydd o dan y botwm uwchlwytho. Os nad yw'r ffeiliau'n ymddangos, cysylltwch â CBAC.



D.S. Bydd modd uwchlwytho unrhyw fath o ffeil (h.y. word, jpeg, mp3, PowerPoint). Bydd angen i ganolfannau gyfeirio at gyfarwyddyd penodol i'r pynciau o ran y math o dystiolaeth a ffeiliau sy'n cael eu derbyn ar gyfer rhai unedau/pynciau.

Gellir uwchlwytho nifer o ffeiliau ar gyfer pob ymgeisydd (os bydd angen).

Methu uwchlwytho ffeil

1. Agorwch y ffeil, Dewisiadau Cadw a chadwch fel ffeil newydd gydag enw gwahanol a'i huwchlwytho
2. Neu rhowch y ffeil mewn ffolder zip a'i huwchlwytho

Dylai hyn ddatrys unrhyw broblemau uwchlwytho.

Os yw canolfan yn gweld ei bod wedi uwchlwytho'r ffeil anghywir gall ddileu unrhyw ffeil sydd wedi'i huwchlwytho **hyd at y dyddiad cyflwyno ar gyfer y gyfres honno.**

Os bydd cymedrolwr neu gynrychiolydd CBAC yn cysylltu â'r ganolfan i ofyn am samplau pellach yna dylai edrych ar y sgrin fewnbynnu i weld pa ymgeiswyr a nodwyd fel samplau ychwanegol. Dylai sicrhau wedyn ei bod yn uwchlwytho ffeiliau o dystiolaeth ar eu cyfer yn ogystal â'r sampl gwreiddiol.

Uwchlwytho Grŵp

Mae rhai pynciau'n defnyddio dull uwchlwytho grŵp neu swyddogaeth gweinyddu, mae'r canllaw pynciau IAMIS yn cynnwys y gofynion ar gyfer y pynciau hyn [e-submission-iamis-upload-subject-guide-2024.pdf \(wjec.co.uk\)](https://www.wjec.co.uk/e-submission-iamis-upload-subject-guide-2024.pdf)

A screenshot of a web application interface. At the top, there's an 'INFO' message: 'Rhaid i chi nodi C neu CF yn y golofn marciau os ydych yn dymuno trosglwyddo marciau.' Below this, there are four buttons: 'WJEC LLAWLYFR ASESU MEWNOL', 'EDUQAS LLAWLYFR ASESU MEWNOL', 'CANLLAW CAM WRTH GAM', and 'ARGRAFFU'. In the center, there's a form titled 'Opsionau' with fields for 'Chwilio am ymgeiswyr', 'Rhesi i'w harddangos:', 'Didoli yn ôl:', and 'Dangos:'. The 'Didoli yn ôl:' field has 'Marc' selected, and the 'Dangos:' field has 'Pob' selected. There's a 'CHWILIO' button. To the right, there's a section titled 'Swyddogaeth Uwchlwytho Grwp/Gweinyddu' with a 'Uwchlwytho' button. At the bottom, there's an 'ERROR' message: 'NID OES UNRHYW YMGEISWYR SY'N CYDFYND Â'R MEINI PRAWF CHWILIO'.

Os yw canolfan yn gweld ei bod wedi uwchlwytho'r ffeil anghywir gall ddileu unrhyw ffeil sydd wedi'i huwchlwytho hyd at y dyddiad cyflwyno ar gyfer y gyfres honno.

Adroddiadau Cymedrolwyr

Bydd **Adroddiadau'r Cymedrolwyr** ar gael i'w gweld o'r sgrin dewislen Asesiad Mewnol o ddiwrnod y Canlyniadau.

TGAU MEHEFIN 2023 –	
TGAU MEHEFIN 2023 CYMRAEG IAITH UNED 1 LLAFFAR (3000N1)	EDRYCH AR ADRODDIAD Y SAFONWR EDRYCH AR Y MARCIAU POB MARC WEDI'I GYFLWYNO (1)
TGAU MEHEFIN 2023 CYMRAEG AIL IAITH UNED 1 UNIT 1 (3020U1)	EDRYCH AR ADRODDIAD Y SAFONWR EDRYCH AR Y MARCIAU POB MARC WEDI'I GYFLWYNO (38)
TGAU MEHEFIN 2023 CYMRAEG AIL IAITH UNED 2 UNIT 2 (3020U2)	EDRYCH AR ADRODDIAD Y SAFONWR EDRYCH AR Y MARCIAU POB MARC WEDI'I GYFLWYNO (248)
TGAU MEHEFIN 2023 HANES UNED 4 UNIT 4 (3100UN)	EDRYCH AR ADRODDIAD Y SAFONWR EDRYCH AR Y MARCIAU POB MARC WEDI'I GYFLWYNO (42)
TGAU MEHEFIN 2023 CYFRIFIADUREG UNIT 3 (3500U3)	EDRYCH AR ADRODDIAD Y SAFONWR EDRYCH AR Y MARCIAU POB MARC WEDI'I GYFLWYNO (30)

Llinell Gymorth

Mae llinell gymorth benodol ar gael os oes gennych chi ymholiadau ynglŷn ag unrhyw agwedd ar ddefnyddio'r system ar-lein. Mae'r llinell gymorth ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8:30a.m. i 5:00p.m.


Cysylltwch â:	TGAU	E-bost: tgau@cbac.co.uk
	TAG	E-bost: tag@cbac.co.uk
	Llwybrau	E-bost: llwybrau@cbac.co.uk
	Bagloriaeth Cymru	E-bost: wbq@cbac.co.uk

Ffôn:	TGAU	Pob aelod o staff	02920 265082/420/154
	TAG	Pob aelod o staff	02920 265336
	Llwybrau	Pob aelod o staff	02920 265444
	Bagloriaeth Cymru	Pob aelod o staff	02922 404250


Atodiad – Gwahodd cyfrifon Gweinyddol/Defnyddiwr.

Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi i'r Porth. Cliciwch ar eich **enw/rhif canolfan** ar yr ochr dde.

Cliciwch ar **'Rheoli Defnyddwyr'** o'r ddewislen sy'n ymddangos. Bydd hyn yn codi tudalen newydd fel y gwelir yn y sgrinlun isod.



Gwahoddwch ddefnyddiwr newydd trwy glicio ar **'Gwahodd Defnyddiwr'**.



Mewnbynnwch fanylion y defnyddiwr, gan gynnwys ei enw, ei ddewis iaith, a'r cyfeiriad e-bost yr ydych am i'r gwahoddiad gael ei anfon ato.

Gnewch yn siŵr eich bod yn dewis y **'Math o Gyfrif'** cywir wrth wahodd defnyddiwr, gan y bydd hyn yn diffinio beth fydd gan y defnyddiwr fynediad ato.

Gwahodd Defnyddiwr

Gwahodd defnyddiwr newydd i'r ganolfan 68745.

Enw cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad e-bost

Dewis iaith

Math o gyfrif

Defnyddiwr

Defnyddiwr

Mae cyfrifon defnyddwyr yn gallu gweld adnoddau, canlyniadau ac adroddiadau (mae cyfyngiadau ar gael).NID ydynt yn gallu cael mynediad at nodweddion gweinyddol

> Rheoli Mynediad Trefniadau Mynediad Cofrestriadau a Chanlyniadau IAMIS Adnoddau Diogel Gweld Sgriptiau

Bydd y defnyddiwr yn derbyn gwahoddiad i'r cyfeiriad e-bost uchod.

Anfon gwahoddiad

Math o gyfrif

Cyfrif gweinyddol – Mae gan gyfrifon gweinyddol yr un mynediad â chyfrifon swyddogion arholiadau. Mae'n caniatáu i chi wneud cofrestriadau, gweld canlyniadau, gwahodd defnyddwyr newydd ac ati. Rydym yn argymhell y math hwn o gyfrif ar gyfer timau swyddfa arholiadau.

Cyfrif defnyddiwr – Bydd cyfrifon defnyddwyr yn gallu gweld adnoddau, Adolygiadau Arholiadau Ar-lein, ac nid oes ganddynt yr un mynediad â swyddogion arholiadau. Rydym yn argymhell y math hwn o gyfrif i athrawon. Gellir rhoi mynediad ychwanegol i'r cyfrifon hyn, gweler isod.

Ar ôl i chi lenwi'r manylion a sicrhau bod y cyfeiriad e-bost yn gywir. Cliciwch **'Anfon Gwahoddiad'**.

Gwahodd Defnyddiwr

Gwahodd defnyddiwr newydd i'r ganolfan 68745.

Enw cyntaf

Math o gyfrif

Cyfenw

Cyfeiriad e-bost

Dewis iaith

Defnyddiwr

Mae cyfrifon defnyddwyr yn gallu gweld adnoddau, canlyniadau ac adroddiadau (mae cyfyngiadau ar gael).NID ydynt yn gallu cael mynediad at nodweddion gweinyddol

> Rheoli Mynediad Trefniadau Mynediad Cofrestrïadau a Chanlyniadau IAMIS
 Adnoddau Diogel Gweld Sgriptiau


Bydd y defnyddiwr yn derbyn gwahoddiad i'r cyfeiriad e-bost uchod.

Anfon gwahoddiad


Bydd y defnyddiwr newydd hwn rydych chi wedi'i wahodd yn derbyn e-bost sy'n cynnwys cyfrinair dros dro, a fydd yn caniatáu iddo sefydlu ei gyfrif.

Rhoi Mynediad i IAMIS

Er mwyn rheoli caniatâd cyfrif defnyddiwr, mae angen i chi glicio ar eich **enw/rhif canolfan** yng nghornel dde uchaf y dudalen ac yna dewis **'Rheoli Defnyddwyr'** o'r ddewislen sy'n ymddangos.



Bydd hyn yn agor eich tudalen Rheoli Defnyddwyr. Er mwyn newid caniatâd ar gyfer cyfrif defnyddiwr, cliciwch ar y tri dot wrth ymyl yr enw/cyfrif perthnasol, yna dewiswch **'Rheoli Mynediad'**.



Ar y ddewislen sy'n dilyn, gwnewch yn siŵr bod y botwm wedi'i droi ymlaen ar gyfer **'IAMIS'**, cyn clicio **'Cadarnhau caniatâd mynediad'**. Bydd hyn yn caniatáu mynediad i'r defnyddiwr i'r System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol.

Rheoli Mynediad

Rheoli mynediad ar gyfer Claire Perrv User (claire.perrv08@ooodlemail.com)
Enw Cyntaf Cyfenw Cyfeiriad@E-bost

Trefniadau Mynediad

Caniatáu mynediad at y Porth Gweinyddu Canolfannau CGC, i reoli ymgeiswyr sy'n trosglwyddo, trefniadau mynediad a cheisiadau am bapurau wedi'u haddasu.

IAMIS

Caniatáu mynediad i ddefnyddwyr at sgriniau Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol. Bydd defnyddwyr yn gallu mewnbwnnu a chyflwyno marciau canolfannau ar gyfer asesiadau mewnol a gweld adroddiadau cymedrolwyr.

Gweld Sgriptiau

Caniatáu mynediad at y sgrin gweld sgriptiau ymgeiswyr ar ôl y Canlyniadau. Ni ddylid cael mynediad at sgriptiau heb ganiatâd ymgeiswyr. Mae canllawiau llawn i'w cael yma: [Llyfr](#)

[Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau CGC](#).

Cofrestrïadau a Chanlyniadau

Caniatáu mynediad at wahanol dudalennau yn dangos cofrestrïadau ymgeiswyr a gwybodaeth am eu canlyniadau. Er enghraifft - Slipiau Canlyniadau Ymgeiswyr, Marciau Cydrannau, Dadansoddi Perfformiad Canolfannau ac ati.

Adnoddau Diogel

Caniatáu mynediad at Adnoddau CBAC.

Cadarnhau caniatâd mynediad